**Adroddiad Monitro Blynyddol y Cynllun Iaith Gymraeg**

1 Hydref 2020

1.1 Mae'r ddogfen hon yn darparu gwybodaeth y gofynnwyd amdani i Gomisiynydd y Gymraeg ynglŷn â gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg yr HCPC.

## 1. Cefndir

2.1 Lansiwyd ein Cynllun Iaith Gymraeg (y Cynllun) yn 2011. Ers hynny, rydym wedi cwblhau saith adroddiad gweithredu ar y Cynllun ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg.

2.1 Rydym wedi mabwysiadu'r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, y byddwn yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae ein Cynllun yn nodi sut rydym yn rhoi'r egwyddor honno ar waith wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

1.1 Yn ystod 2019-2020, rydym wedi parhau i weithredu darpariaethau ein Cynllun. Roedd hyn yn cynnwys:

- ystyried anghenion siaradwyr Cymraeg wrth barhau i ddatblygu ein gwefan;
- cyhoeddi hysbysebion dwyieithog yng Nghymru ar gyfer unrhyw swyddi gwag ar ein Cyngor; a
- codi ymwybyddiaeth ymhlith ein staff o'n rhwymedigaethau o dan y Cynllun trwy ymgysylltu a hyfforddiant mewnol.

| Gwybodaeth sy'n ofynnol gan Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg | Ymateb HCPC (mae'r holl ffigurau'n ymwneud â'r cyfnod Ebrill 2019 – Mawrth 2020) |
|---|---|
| **Asesiad effaith polisi**<br>◦ Nifer a chanran y polisïau (gan gynnwys y rhai a adolygwyd neu a ddiwygiwyd) lle rhoddwyd ystyriaeth i'r effeithiau a fyddai gan y polisi ar ddefnydd o'r Gymraeg.<br>◦ Enghraifft o asesiad y bernir iddo **gael** effaith ar ddefnydd o'r Gymraeg a manylion sut y diwygiwyd y polisi o ganlyniad. | Adolygodd y HCPC ddau bolisi ble rhoddwyd ystyriaeth gennym i'r effaith y byddai'r newid polisi yn ei gael ar bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg.<br><br>Ddim yn berthnasol – Ni nodwyd unrhyw bolisïau fel rhai y mae angen eu diwygio ar y sail hon. |
| **Cyhoeddiadau**<br>◦ Nifer y cyhoeddiadau sydd ar gael i'r cyhoedd<br><br>◦ Nifer y cyhoeddiadau sydd ar gael i'r cyhoedd yn Gymraeg | 130, gan gynnwys tri chyhoeddiad newydd eleni.<br><br>13, gan gynnwys un cyhoeddiad newydd eleni.<br><br>Er bod ein holl gyhoeddiadau ar gael i'r cyhoedd, nid yw pob un ohonynt yn ymwneud â chyflawni ein busnes cyhoeddus neu'n rhai sydd â'r cyhoedd yn gyffredinol yn brif gynulleidfa darged. |

| | |
|---|---|
| | Rydym yn cyhoeddi'n ddwyieithog, lle mae lefel debygol y diddordeb cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol. |
| **Cwynion**<br>• Nifer yr holl gwynion a dderbyniwyd ynghylch ymddygiad ymarferwyr yng Nghymru<br><br>• Nifer y cwynion a dderbyniwyd yn Gymraeg ynghylch ymddygiad ymarferwyr yng Nghymru<br><br>• Nifer y cwynion a dderbyniwyd yn ymwneud â chydymffurfiaeth y Cyngor â'i Gynllun Iaith Gymraeg | 49<br><br>0<br><br>0 |
| **Gwefan**<br>• Canran gwefan y sefydliad sydd ar gael yn Gymraeg<br><br>• Tystiolaeth sy'n ymwneud ag unrhyw gynlluniau i wella neu gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg ar y wefan<br><br>• Tystiolaeth sy'n ymwneud â'r broses a ddefnyddir i sicrhau bod y cynnwys presennol, cynnwys gaiff ei ddiweddaru a chynnwys newydd yn cydymffurfio â gofynion y Cynllun Iaith | 8.5% (heb gynnwys cynnwys deinamig, e.e. penawdau, newyddion, digwyddiadau, adnoddau neu ddogfennau).<br><br>Mae ein gwefan yn rhoi'r gallu i'n cynnwys fod yn amlieithog, gan ganiatáu i ni ddatblygu cynnwys Cymraeg newydd yn yr un ffurf â chynnwys Saesneg. Mae hyn yn golygu y gallwn barhau i ddatblygu ein cynnwys Cymraeg yn unol â'r ymrwymiadau yn ein Cynllun.<br><br>Mae hyn wedi arwain at gynnydd sylweddol yn ein gallu i ddarparu cynnwys yn Gymraeg, ac wedi ein galluogi i ddatblygu mwy o gynnwys yn Gymraeg yn y dyfodol yn ôl y gofyn.<br><br>Rydym yn adolygu ac yn diweddaru ein tudalennau Cymraeg yn rheolaidd i sicrhau bod y cynnwys yn gyfoes, yn gywir ac yn cydymffurfio â gofynion ein Cynllun. |

| | |
|---|---|
| Gymraeg (os yw'r broses yn wahanol i'r hyn a adroddwyd yn 2017-18) | Gwnaethon ni greu canolfan gynnwys newydd yn ddiweddar ar gyfer gwybodaeth am COVID-19. Fel rhan o’r broses hon, fe wnaethon ni sicrhau bod pob tudalen cynnwys sy’n berthnasol i aelodau’r cyhoedd ar gael yn Gymraeg. |
| **Hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg**<br>- Gwybodaeth am y dulliau a ddefnyddir i **hyrwyddo** gwasanaethau Cymraeg y sefydliad a thystiolaeth o unrhyw gynnydd dilynol yn y defnydd o'r gwasanaethau gan y cyhoedd.<br>- Gwybodaeth am y dulliau a ddefnyddir i asesu ansawdd gwasanaethau Cymraeg y sefydliad (e.e. trwy asesu profiad defnyddwyr gwasanaeth presennol/darpar ddefnyddwyr) | O dan ein Cynllun, rydym yn rhoi hysbysiadau am ddigwyddiadau cyhoeddus yng Nghymru yn ddwyieithog, yn cyfieithu adnoddau caled, yn darparu cyfieithu ar y pryd ac yn gwneud addasiadau eraill wrth gynnal digwyddiadau cyhoeddus yng Nghymru. Rydym yn darparu cyfieithiadau o gyhoeddiadau ar gais ac yn hysbysebu hyn mewn cyhoeddiadau ac ar ein gwefan. Mae llofnodion e-bost pob aelod staff yn cynnwys ‘Correspondence is welcome in English or Welsh / Gallwch ohebu yn Gymraeg neu Saesneg.’ Rydym wedi ymateb i geisiadau am gyfieithiadau Cymraeg o benderfyniadau gwrandawiadau Addasrwydd i Ymarfer.<br><br>Mae ein hasesiad o'r defnydd a wneir o'r gwasanaeth cyfieithu ar y pryd a ddarperir mewn digwyddiadau yn dangos bod y galw yn isel iawn. |
| **Achosion Addasrwydd i Ymarfer**<br>- Nifer y gwrandawiadau a gynhaliwyd yng Nghymru<br>- Nifer y gwrandawiadau lle gwnaed cais gan y tyst i siarad Cymraeg<br>- Nifer y gwrandawiadau lle cyflwynwyd tystiolaeth yn Gymraeg | 40<br><br>0<br><br>0 |
| **Hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith**<br>- Nifer a chanran staff newydd y sefydliad (h.y. newydd ers 1 Ebrill 2019) a dderbyniodd hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith Gymraeg. | Ddim yn gwybod. Rydym wedi canfod yn ddiweddar nad yw rhaglenni cynefino a gynhaliwyd gan wahanol adrannau yn y sefydliad yn cynnwys hyfforddiant |

| | |
|---|---|
| <br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>- Nifer a chanran gweithlu cyfan y sefydliad sydd wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith Gymraeg ers i'r hyfforddiant gael ei gyflwyno. | ymwybyddiaeth am y Cynllun Iaith Gymraeg. Yn flaenorol, nid oedd gan yr HCPC elfen ar y Cynllun Iaith Gymraeg yn ein pecyn cynefino ar gyfer y sefydliad cyfan ac roedd y broses hon yn cael ei chynnal yn hytrach gan adrannau a fyddai'n cyflwyno'u rhwymedigaethau penodol o dan y Cynllun i staff yn rhan o'u trefniadau cynefino.<br><br>Ym mis Awst 2020, lansiwyd ein modiwl e-ddysgu ar y Cynllun Iaith Gymraeg a bydd hwn yn cael ei gyflwyno ar draws y sefydliad. Bydd y modiwl hwn yn cael ei gynnwys yn rhaglen gynefino pob dechreuwr newydd.<br><br>Ddim yn gwybod. Fel y nodwyd uchod, mae'r broses hon bellach wedi cael ei chanoli gan ein tîm Adnoddau Dynol yn hytrach na chael ei chynnal gan adrannau unigol. Yn ein hadroddiad blaenorol, roeddem wedi cymryd yn ganiataol bod pob aelod staff oedd angen yr hyfforddiant hwn yn ei dderbyn yn eu hadrannau unigol. Sylweddolom nad oedd hyn yn wir yn ystod adolygiad a gynhaliwyd yn 2020.<br><br>Rydym yn disgwyl felly y bydd y data hyn gennym ar gyfer adroddiad blynyddol y flwyddyn nesaf. |
| **Hunanreoleiddio**<br>- Manylion y trefniadau a'r gweithdrefnau y mae'r sefydliad wedi'u mabwysiadu i'w alluogi i hunanreoleiddio'n effeithiol. * | Mae'r HCPC wedi ymrwymo i gynnig gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru yn eu dewis iaith.<br><br>Trwy annog adborth a gohebiaeth yn Gymraeg, rydym yn gobeithio annog rhagor o siaradwyr Cymraeg i gysylltu â'r sefydliad trwy'r Gymraeg a nodi ble gallwn ni wella'n cynnig.<br><br>Rydym yn annog cydymffurfiad â'n Cynllun Iaith Gymraeg yn barhaus, naill ai trwy |

| | |
|---|---|
| | gyfathrebiadau mewnol neu trwy adolygiadau o'r cynnwys rydym yn ei gynnig ar-lein ynglŷn â'r Cynllun.<br><br>Yn ystod y cyfnod adrodd, rydym eisoes wedi dechrau nodi sut bydd y sefydliad yn gallu bodloni drafft Safonau'r Gymraeg 2020 a pha ddulliau gweithio y mae angen eu haddasu.<br><br>Trafododd ein Cynllun Gweithredu Cyfartaledd, Amrywiaeth a Chynhwysiant ymrwymiad y sefydliad i fodloni'r rhwymedigaeth yn ein Cynllun Iaith Gymraeg ac i sicrhau bod ein gwasanaethau yn hygyrch i aelodau o'r cyhoedd sy'n defnyddio'r Gymraeg. |

**Gallech ddarparu manylion trefniadau megis y canlynol:*

***Adborth Defnyddwyr***

- *Ymgysylltu*
- *Gweithdrefn cwynion*

***Sicrwydd mewnol ynglŷn â pherfformiad***

- *Gwiriadau annibynnol (e.e. siopwr dirgel)*
- *Mewnoli prosesau cynllunio iaith/monitro/adodd ar berfformiad*
- *Defnyddio technegau archwilio mewnol*
- *Prosesau cadarn er mwyn cydymffurfio â'r safonau cadw cofnod/atodol*

***Atebolrwydd a chefnogaeth***

- *Arweinyddiaeth a chynllunio strategol gan uwch reolwr*
- *Arweinyddiaeth ac arbenigedd gweithredol gan unigolyn neu dîm penodol*
- *Rheolwyr ar draws y sefydliad â chyfrifoldeb am y safonau yn eu maes gwaith nhw*